

Disgrifiad o Rôl Intern Pysgotwr Ifanc Prosiect SIARC

Dogfen ddwyieithog yw hon, gweler tudalennau 1 – 6 am y Gymraeg a thudalennau 7 – 11 am y Saesneg.

Rydym yn annog ceisiadau'n gryf gan bob cefndir ac yn dathlu gwerth cael tîm o weithwyr sydd â sgiliau, profiadau a threftadaeth amrywiol. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein timau'n gallu bod yn nhw eu hunain yn y gwaith heb ofn gwahaniaethu. Mae gan ZSL rwydweithiau cydraddoldeb gweithgar i'n staff sydd â phrofiad bywyd, ac i'r rhai sy'n darparu cynghreiriaeth weithgar mewn Hil a Diwylliant, Team Pride, Rhwydwaith Anabledd a Rhwydwaith Menopos, sydd wedi'u hatgyfnerthu gan ein Grŵp Llywio EDI strategol.

Mae ceisiadau ar agor tan 23:59, dydd Sul 5ed Ionawr 2025.

Rydym yn anelu at gynnal cyfweiliadau gyda'r ymgeiswyr yn gynnar ym mis Chwefror.

Project SIARC Young Fisher Intern Role Description

This is a bilingual document, please see pages 1 – 6 for Welsh and pages 6 – 11 for English.

We strongly encourage applications from all backgrounds and celebrate the value of having a team of employees with diverse skills, experiences, and heritage. We are committed to ensuring our teams can bring their authentic selves to work without fear of discrimination. ZSL has active equality networks for our staff with lived experience and those who provide active allyship in Race and Culture, Team Pride, Disability Network, and Menopause Network, complemented by our strategic EDI Steering Group.

Applications are open until 23:59 Sunday 5th January 2025

We aim to interview applicants in early February

Intern Pysgotwr Ifanc Prosiect SIARC

| | | | |
|-----------------------|---|---------------------|--|
| Gradd y swydd | Cyflog byw yn y DU | Yn atebol i | Swyddog Cymunedol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant – Prosiect SIARC |
| Cyfarwyddiaeth | Cadwraeth a Pholisi | Swyddog aeth | Tîm Rhywogaethau a Pholisi Dyfrol, Adran y Môr a Dŵr Croyw |
| Contract | Contract cyfnod penodol am chwe mis yn dechrau gwanwyn 2025 | Lleoliad | Bydd y rôl wedi'i lleoli yng Ngogledd Cymru a bydd angen i'r intern fyw yn Sir Fôn, Conwy neu Wynedd |

Cyfrifoldeb dros adnoddau

| | |
|--------------------------|---|
| Adnoddau ariannol | Mae'n bosibl y bydd gan ddeiliad y swydd gyfrifoldeb dirprwyedig o bryd i'w gilydd am brynu offer yn unol â chyllidebau'r prosiect. Bydd angen i ddeiliad y swydd geisio gwerth am arian wedi'i gydbwyso ag ansawdd. Bydd disgwyl iddo hefyd gadw hawliadau treuliau cywir gyda thystiolaeth a chael hyfforddiant ar wneud hynny. |
|--------------------------|---|

Cyflwyniad

Mae rhaglen interniaeth Pysgotwr Ifanc [Prosiect SIARC](#) yn cynnig cyfle datblygu unigryw i gael cipolwg a phrofiad o fywyd gwaith ar arfordir a môr Cymru. Mae'r rhaglen interniaeth hon yn rhaglen beilot ac mae un swydd ar gael. Nod y rhaglen yw mynd i'r afael â rhwystrau i ennill profiad (e.e. cost y cymwysterau ac offer gofynnol, mynediad at gyfleoedd hyfforddi a dysgu) a wynebir gan unigolion sydd am ddatblygu gyrfa yn y sector morwrol ymhellach. Rydym yn croesawu pob ymgeisydd ac yn enwedig ymgeiswyr a fyddai'n elwa o'r cyfleoedd y mae'r rhaglen interniaeth hon yn eu darparu, sy'n gynnar yn eu taith gyrfa ac sy'n awyddus i ennill profiadau a sgiliau newydd, neu sy'n cael eu hystyried yn unigolion ifanc (18 – 24 oed) ac sy'n chwilio am hyfforddiant pellach, addysg neu gyflogaeth*. Ar ben hynny, rydym yn annog pob ymgeisydd i adlewyrchu unrhyw brofiad personol o fyw a/neu weithio yng Nghymru (gan gyfeirio'n benodol at Ynys Môn, Conwy a Gwynedd oherwydd lleoliad yr interniaeth) a'u cysylltiadau amlwg eu hunain ag arfordir Cymru a'r môr yn eu ceisiadau. Bydd yr interniaeth yn cynnwys amrywiaeth o leoliadau gydag unigolion a sefydliadau lleol sy'n gweithio yn y sector morol ar draws Gogledd Cymru. Bydd gan yr intern hyblygrwydd i archwilio cyfleoedd eraill trwy gydol yr interniaeth ac i ddilyn maes diddordeb yn fwy manwl.

* Carreg Filtir 22 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant: Bydd o leiaf 90% o bobl ifanc 16-24 oed mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant erbyn 2050

Pwrpas y rhaglen

- Creu cyfle i rywun sydd am ddatblygu ymhellach ystod amrywiol o sgiliau sy'n berthnasol i dreftadaeth bysgota, y sector morol ehangach a thechnegau gwyddonol
- Cyflwyno'r ymgeisydd llwyddiannus i'r amrywiaeth o gyfleoedd y mae'r sector morol yn eu cwmpasu
- Mynd i'r afael â'r rhwystrau a wynebier gan unigolion sydd am ddatblygu eu gyrfaedd yn y dyfodol a datblygu eu cyflogadwyedd ymhellach, lle mae hyn yn berthnasol i'r sector morol yng Nghymru
- Hwyluso cyfnewid gwybodaeth dwyffordd rhwng yr intern a gweithwyr proffesiynol sefydledig y diwydiant
- Creu cyfle ar gyfer dysgu rhwng cenedlaethau o fewn y sector morol yng Nghymru
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o waith Prosiect SIARC a'r sector morol ehangach yng Nghymru
- Darparu amser a chefnogaeth i feithrin diddordeb a chyffro ymhellach am amgylchedd morol Cymru
- Cyfle i "gamu" i ddatblygu profiad amlwg sy'n berthnasol i weithio yn y diwydiant morol yng Nghymru

Beth i'w ddisgwyl

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cwblhau lleoliadau craidd mewn amrywiaeth o sefydliadau lletyol ar draws Gogledd Cymru. Rhoddir cefnogaeth gan staff Prosiect SIARC a gwesteiwyr lleoliadau i helpu i deilwra'r cyfleoedd hyn i anghenion datblygu'r ymgeiswyr llwyddiannus. Bydd lleoliadau yn cynnwys treulio amser gyda'r canlynol:

- **Pysgotwyr siarter annibynnol a masnachol annibynnol, gan gynnwys busnesau lleol sy'n ymwneud â physgota môr hamdden, saffariau bywyd gwylt, pysgota masnachol.**

Ymunwch â pysgotwyr lleol ar longau siarter a masnachol i gael profiad uniongyrchol a dealltwriaeth o waith ar y môr trwy ddysgu ymarferol a thrafodaethau un i un. Bydd cyfleoedd hefyd i weithio gyda'r capten ar baratoi a chynnal a chadw'r cwch, rheoli busnes, cysylltiadau â gwesteion, a thasgau eraill o ddydd i ddydd.

- Mae **Adran Ysgol Gwyddorau'r Eigion Prifysgol Bangor** yn un o adrannau gwyddor môr mwyaf Ewrop gydag adran gwyddor morol aml-ddisgyblaethol wedi'i lleoli ar lannau'r Fenai, Gogledd Cymru, y DU.

Treulio amser gydag Adran Ysgol Gwyddorau'r Eigion Prifysgol Bangor. Gallai hyn gynnwys⁺ amser ar longau ymchwil y brifysgol – ymuno ar deithiau ymchwil, arddangosiadau gan fyfyrwyr a theithiau masnachol, yn ogystal â chyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau tir fel adolygu llenyddiaeth wyddonol, dadansoddi data, gwaith labordy a gwaith arolygu.

** Mae'r gweithgareddau terfynol sydd ar gael yn dibynnu ar brosiectau a ariennir sydd ar y gweill ar adeg yr interniaeth*

- *Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn un o'r 46 o ymddiriedolaethau natur sy'n gweithio ar draws y DU. Gyda chefnogaeth amhrisiadwy gwirfoddolwyr ac aelodau, mae'r ymddiriedolaeth yn rheoli 35 o warchodfeydd natur yng Ngogledd Cymru. Mae'r ymddiriedolaeth yn gweithio i ddiogelu a chysylltu safleoedd bywyd gwyllt ar draws y wlad ac ysbrydoli cymunedau lleol a phobl ifanc i ofalu am fywyd gwyllt lle maent yn byw.*

Ymunwch ag Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru i gymryd rhan yn ei gweithgareddau ymgysylltu ac allgymorth ar gyfer bywyd gwyllt a chadwraeth forol. Bydd cyfleoedd i weithio mewn digwyddiadau cymunedol, cymryd rhan gyda grwpiau ysgol a gweithgareddau ymgysylltu eraill, ac ymgysylltu'r gymuned leol â'r amgylchedd morol.

- *Mae Prosiect SIARC, a hwylusir gan bartneriaid arweiniol Cymdeithas Sŵolegol Llundain (ZSL), yn elusen gadwraeth ryngwladol sy'n cael ei hysgogi gan wyddoniaeth ac sy'n gweithio i adfer bywyd gwyllt yn y DU a ledled y byd. Ein gweledigaeth yw byd lle mae bywyd gwyllt yn ffynnu ac mae gan bob rôl a phob unigolyn ym mhob cornel o ZSL un peth yn gyffredin – rydyn ni i gyd yn gadwraethwyr ac yn angerddol dros adfer bywyd gwyllt ac mae **Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)**, corff a noddir gan Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am fynd ar drywydd rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru*

Wrth weithio i ZSL, bydd yr intern yn rhan o dîm Prosiect SIARC ac yn gweithio gyda staff o ZSL ac CNC. Bydd yr intern yn cael ei fentora a chael cefnogaeth datblygiad personol i gynhyrchu portffolio sy'n adlewyrchu datblygiad personol. Bydd yr intern yn treulio amser yn gweithio ar draws ystod o weithgareddau gyda thîm Prosiect SIARC. Bydd yr intern yn cael cyfle i gymryd rhan mewn Fideos Tanddwr ag Abwyd o Bell (BRUVS) a gwaith maes tagio cŵn gleision, a chael profiad o weithio gyda chymunedau a threfnu digwyddiadau. Bydd yr intern yn gweithio o fewn y tîm Cadwraeth a Pholisi yn ZSL, a bydd cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ZSL ehangach, gan gynnwys hyfforddiant mewnol, digwyddiadau, a chyfleoedd i rwydweithio.

Bydd cyfleoedd hefyd i dreulio amser gyda chymdeithasau a rhwydweithiau perthnasol yng Nghymru, megis Pysgotwyr Môr Angling Cymru, corff pysgota môr y corff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer pysgota yng Nghymru. Gall gweithgareddau gyda'r gymdeithas gynnwys casglu abwyd, pysgota ar y lan, mynychu digwyddiadau, a thrafodaethau un-i-un sy'n canolbwyntio ar rannu profiad a dysgu. Gallai cyfleoedd posibl eraill hefyd gynnwys creu cynnwys ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, ymuno ag arolygon maes gyda thîm monitro morol CNC, datblygu prosiect hunanarweiniol ar gyfer cyfnod yr interniaeth, paratoi bwyd môr, a threulio amser gyda phrosiectau cadwraeth forol leol eraill megis The Wild Oysters Project Conwy Bay dan oruchwyliad ZSL a Phrifysgol Bangor.

Sylwch, yn ogystal â'r lleoliadau craidd hyn, mae potensial ar gyfer lleoliadau a gweithgareddau ychwanegol o fewn hyd yr interniaeth, er mwyn teilwra'r cyfle i ddiddordeb yr unigolyn, a hefyd cyfleoedd a allai ddatblygu yn ystod cyfnod yr interniaeth.

Manyleb yr unigolyn

Hanfodol

- Parodrwydd i ddysgu Cymraeg a gweithio mewn tîm dwyieithog
- Rhyw fath o brofiad morol
- Diddordeb mewn datblygu gyrfa yn y sector morol
- Wedi ymrwymo i dreulio llawer o amser allan ar y môr
- Yn gallu dangos penderfyniad, menter a gwydnwch
- Yn awyddus i chwilio am gyfleoedd ychwanegol eu hunain, eu datblygu, a chymryd cyfrifoldeb amdanynt
- Ymrwymiad cryf i greu diwylliant sy'n byw drwy werthoedd ZSL ac ymrwymiad i ddiogelu, cydraddoldeb ac amrywiaeth (cydweithredol, ysbrydoledig, cynhwysol, arloesol, dylanwadol, a moesegol) a chynnal gwerthoedd teg, atebol, cynhwysol, parchus, moesegol a chyfrifol y rhaglen FAIRER a dull cadwraeth cynhwysol Prosiect SIARC
- Yn gallu cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch a'u hyrwyddo
- Gallu teithio'n annibynnol a chyda'ch cludiant eich hun
- Parodrwydd i gyfathrebu'n agored a darparu a derbyn adborth

Dymunol

- Profiad bywyd helaeth o Gymru
- Profiad bywyd a dealltwriaeth o weithio neu fyw yn siroedd Gwynedd, Conwy neu Ynys Môn
- Profiad o weithio ar gwch
- Gallu deall neu siarad Cymraeg
- Cysylltiad arfordirol amlwg
- Diddordeb neu brofiad mewn cyfathrebu ag amrywiaeth o gynulleidfaedd, e.e. cyfryngau cymdeithasol, cyflwyniadau a sgysïau

Canllawiau ar gyfer ceisiadau

Yn y broses ymgeisio, gofynnir i chi ddarparu CV a datganiad personol. Yn eich datganiad personol, gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb y cwestiynau canlynol:

1. Beth oedd o ddiddordeb i chi yn yr interniaeth hon, sut fyddai'r cyfle hwn o fudd i chi, a pham wnaethoch chi wneud cais? (dim mwy na 500 o eiriau)

2. Darparwch enghreifftiau o'ch profiad mordwyo perthnasol, rhowch fanylion y profiad, a nodwch pam rydych chi'n teimlo bod hyn yn berthnasol
3. Dywedwch wrthym am eich cysylltiad â Chymru ac arfordir a môr Cymru (dim mwy na 500 o eiriau)
4. A oes unrhyw beth arall yr hoffech i ni ei wybod i gefnogi eich cais?

Gwybodaeth allweddol ychwanegol

Cyflog: £12.60 yr awr (Cyflog Byw Go lawn y DU) ynghyd â chyfraniad pensiwn

Oriau gwaith: Amser llawn (37.5 awr). Bydd y swydd hon yn gofyn am weithio y tu allan i oriau gwaith 9am – 5pm, dydd Llun – dydd Gwener (dechrau'n gynnar, gorffen yn hwyr, ac ambell waith gyda'r nos / ar y penwythnos). Bydd y swydd hon yn gofyn am weithio helaeth y tu allan gyda chyswllt uniongyrchol â'r tywydd. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn derbyn yr holl gyfarpar diogelu personol angenrheidiol fel rhan o'i interniaeth (e.e. dillad glaw, menig gwaith ac esgidiau gwaith)

Cyfnod y contract a'r dyddiad cychwyn: Contract cyfnod penodol am chwe mis yn dechrau rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2025. Pan fydd ymgeiswyr yn dal mewn addysg ac yn gorffen arholiadau'r gwanwyn, mae'n bosibl ymgymryd â gweithgareddau sefydlu yn ystod gwyliau'r Pasg ac yna cychwyn yn llawnamser ym mis Mehefin

Lleoliad: Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus fod wedi'i leoli yng Ngwynedd, Conwy neu Ynys Môn, ac ni fydd darpariaethau ar gyfer talu costau adleoli

Proses gyfweld: Mae'r broses gyfweld yn un aml-gam: bydd rhan un yn ddiwrnod gweithgareddau, ac yna cynhelir y cyfweiliad ffurfiol ar wahân wyneb yn wyneb.

Hyfforddiant: Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael y cyfle i gwblhau ei Gwrs Goroesi Môr Sylfaenol, ENG1 Meddygol, Cymorth Cyntaf yn y Gweithle, ac un diwrnod o hyfforddiant diffodd tân.

Gwiriadau: Mae'r rôl hon yn amodol ar wiriadau cyn-gyflogaeth safonol, gan gynnwys hawl yr ymgeisydd i weithio yn y DU. Sylwch, gan fod y swyddi hyn wedi'u heithrio o Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974, bydd angen gwiriad datgeliad boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus

Project SIARC Young Fisher Intern

| | | | |
|--------------------|---|-------------------|---|
| Job grade | UK LW | Reports to | Project SIARC EDI Community Officer |
| Directorate | Conservation & Policy | Function | Aquatic Species and Policy team, Marine and Freshwater department |
| Contract | Fixed term contract for 6 months starting Spring 2025 | Location | The role will be based in North Wales and require the intern to live in Anglesey, Conwy or Gwynedd county |

Responsibility for resources

| | |
|----------------------------|--|
| Financial resources | The post holder may occasionally have delegated responsibility for the purchase of equipment in accordance with project budgets. The post holder will need to seek value for money balanced with quality. They will also be expected to keep accurate and evidenced expense claims and receive training on doing so. |
|----------------------------|--|

Introduction

The [Project SIARC Young Fisher internship](#) programme offers a unique development opportunity to gain insight into, and experience of, working life on the Welsh coast and sea. This internship programme is a pilot programme and 1 post is available. The programme aims to address barriers to gaining experience (e.g. cost of required qualifications and equipment, access training and learning opportunities) faced by individuals looking to further develop a career in the maritime sector. We welcome all applicants and particularly candidates who would benefit from the opportunities this internship programme provides, are early in their careers and looking to gain new experiences and skills or are considered young (18 – 24 years old) and seeking further training, education or employment*. Furthermore, we encourage all applicants to reflect any personal lived experience of living and or working in Wales (with particular reference to Anglesey, Conwy and Gwynedd due to the location of where the internship will be based) and their own demonstrable connections to the Welsh coast and sea in their applications. The internship will consist of a variety of placements with local individuals and organisations working in the maritime sector across North Wales. The intern will have flexibility to explore other opportunities throughout the duration of the internship and to pursue an area of interest in more detail.

* Milestone 22 of the Wellbeing of Future Generations Act - Percentage of people in education, employment or training: At least 90% of 16-24 year olds will be in education, employment, or training by 2050

Purpose of the programme

- To create an opportunity for someone looking to further develop a diverse range of skills relevant to fishing heritage, the wider maritime sector and scientific techniques
- To introduce the successful candidate to the diversity of opportunities which the maritime sector encompasses
- To address barriers faced by individuals looking to develop their future careers and further develop their employability, relevant to the maritime sector in Wales
- To facilitate two-way knowledge exchange between the intern and established industry professionals
- To create an opportunity for intergenerational learning within the maritime sector in Wales
- To provide an opportunity for the candidate to develop a deeper understanding of the work of Project SIARC and the wider maritime sector in Wales
- To provide time and support to further foster interest and excitement about the marine environment of Wales
- A “stepping stone” opportunity to develop demonstrable experience relevant to working in the maritime industry in Wales

What to expect

The successful applicant will complete core placements at a variety of host organisations across North Wales. Support from Project SIARC staff and placement hosts will be given to help tailor these opportunities to the successful candidates development needs. Placements will include spending time with:

- **Independent Charter and Commerical Fishers** *including local businesses who cover recreational sea-fishing, wildlife safari, commercial fishing.*

Join local fishers on charter and commercial vessels to get first-hand experience and understanding of work at sea through practical learning and 1-1 discussions. There will also be opportunities to work with the skipper on preparation and maintenance of the boat, business management, guest relations and other day-to-day tasks.

- **Bangor University, School of Ocean Sciences Department** *is one of the largest Marine Science departments in Europe with a multidisciplinary marine science department located on the shores of the Menai Strait, North Wales, UK.*

Spend time with Bangor Universities School of Ocean Sciences Department. This could include⁺ time on the universities' research vessels - joining for research trips, student demonstrations and commercial trips as well as opportunities to take part in land-based activities such as reviewing scientific literature, data analysis, lab work and survey work.

+ *Final activities available are dependent on funded projects underway at the time of internship*

- **North Wales Wildlife Trust** *is one of 46 Wildlife Trusts working across the UK. With the invaluable support of volunteers and members, the trust manage 35 nature reserves in North Wales. The trust work to protect and connect wildlife sites across the country and inspire local communities and young people to care for wildlife where they live.*

Join the North Wales Wildlife Trust to get involved in their wildlife and marine conservation engagement and outreach activities. There will be opportunities to work at community events, participate with school groups and other engagement activities, to engage the local community with the marine environment.

- **Project SIARC, facilitated by lead partners Zoological Society of London (ZSL)** *is an international conservation charity, driven by science, working to restore wildlife in the UK and around the world. Our vision is a world where wildlife thrives and every role, every person in every corner of ZSL has one thing in common – we are all conservationists, and passionate about restoring wildlife and **Natural Resources Wales (NRW)**, a Welsh Government sponsored body, responsible for pursuing the sustainable management of the natural resources of Wales*

While working for ZSL the intern will be part of the Project SIARC team and working with staff from both ZSL and NRW. The intern will receive mentoring and personal development support to produce a portfolio reflecting personal development. The intern will spend time working across a range of activities with the Project SIARC team. The intern will have the opportunity to take part in Baited Remote Underwater Video's (BRUVS) and Tope tagging fieldwork, and gain experience of working with communities and delivering events. The intern will be working within the Conservation & Policy team at ZSL, and there will be opportunities to get involved in wider ZSL activities, including internal training, events and networking opportunities.

There will also be the opportunities to spend time with relevant associations and networks in Wales such as Angling Cymru Sea Anglers, the Sea Angling body of the National Governing Body for angling in Wales. Activities with the association may include bait collecting, shore angling, attending events and 1-1 discussions focused on sharing experience and learning. Other potential opportunities could also include creating content for social media, joining field surveys with the NRW marine monitoring team, developing a self-led project for the duration of the internship, preparation of seafood and spending time with other local groups and marine conservation projects such as The Wild Oysters Project Conwy Bay led by ZSL and Bangor University.

Please note that as well as these core placements, there is potential for additional placements and activities within the duration of the internship, to enable the opportunity to be tailored to the individual's interest and also opportunities which may develop within the duration of the internship.

Person Specification

Essential

- Willingness to learn Welsh and work in a bilingual team
- Some form of sea-going experience
- Interested in developing a career in the maritime sector
- Committed to spending extensive time out at sea
- Can demonstrate determination, initiative and resilience
- Keen to seek, develop and take responsibility for own additional opportunities
- Strong commitment to creating a culture that lives ZSL values and commitment to safeguarding, equality and diversity (collaborative, inspiring, inclusive, innovative, impactful, and ethical) and upholding FAIRER programme values (Fair, accountable, Inclusive, Respectful, Ethical, Responsible) and Project SIARCs inclusive conservation approach
- Can comply with and promote Health and Safety policies and procedures
- Able to travel independently and have your own form of transportation
- Willingness to communicate openly, provide and receive feedback

Desirable

- Extensive lived experience of Wales
- Lived experience and understanding of working or living in the counties of Gwynedd, Conwy, Anglesey
- Experience of working on a boat
- Be able to understand or speak Welsh
- Demonstrable coastal connection
- Interest or experience in communicating with a variety of audiences e.g. social media, presentations and talks

Guidance for applications

In the application process you will be asked to provide a CV and personal statement. In your personal statement please ensure you cover the following questions:

1. What interested you in this internship, how would this opportunity benefit you and why did you apply? (no more than 500 words)
2. Please provide examples of your relevant sea-going experience, please include details of the experience and indicate why you feel this is relevant
3. Please tell us about your connection to Wales and the Welsh coast and sea (no more than 500 words)
4. Is there anything else you wish us to know to support your application

Additional key information

Salary: £12.60 per hour (UK Real Living Wage) plus pension contribution

Working hours: Full Time (37.5 hours) This post will require work outside of 09:00 – 17:00, Monday – Friday work hours (early starts, late finishes and occasional evening/weekend work). This post will require extensive outside working with direct exposure to the weather. The successful candidate will receive all necessary Personal Protective Equipment as part of their internship (e.g. waterproofs, work gloves and work boots)

Contract period and start date: Fixed Term contract for 6 months starting between April-June 2025, where applicants are still in education and finishing spring exams it is possible to undertake induction activities in the Easter Break and then start full time in June

Location: The successful candidate will need to be based in Gwynedd, Conwy or Anglesey, there will not be provisions for covering the cost of relocation

Interview process: The interview process is multi-stage, part one will be an activity day, followed by a separate formal interview in-person.

Training: The successful candidate will receive the opportunity to complete their Basic Sea Survival Course, ENG1 Medical, First Aid at Work and 1 day Firefighting.

Checks: This role is subject to standard pre-employment checks, including the candidate's right to work in the UK. Please note that, as these posts are exempt from the Rehabilitation of Offenders Act 1974, a satisfactory Disclosure and Barring Service (DBS) Disclosure check will be required for the successful candidate